



# Ein Cwricwlwm


## Fframwaith a Dilyniant




# Gweledigaeth

# Gwerthoedd ein Cwricwlwm?

**Ein Cwricwlwm yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi wrth fynd ar drywydd y pedwar diben. Nid yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu yn unig, ond sut rydyn ni'n dysgu a pham rydyn ni'n ei ddysgu.**


| Cymraeg a Chymreictod  | Mentro a disgwyliadau uchel  | Cymuned cefnogol cynhwysol a chyfoes  | Ymchwilio a cwestiynu, datrys problemau  | Parch  | Dychymyg a chreadigrwydd  |
|---|---|---|---|---|---|
| Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ym mhob rhan o'n gwaith.<br><br>Rydym yn siarad Cymraeg wrth weithio a chwarae yn yr ysgol.<br><br>Rydym yn rhoi cyfle i ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r ysgol | .Trwy fentro mae tyfu hyder a dysgu. Mae'r ethos o fentro a chreadigrwydd wrth drio a thrio eto yn sylfaen i'n plant ac addysgwyr.<br><br>Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddysgwyr, a staff, i fentro'n hyderus, i feddwl yn greadigol a thorri tir newydd ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau. | Rydym yn chwarae rhan lawn ym mywyd ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan lawn ym mywyd Ysgol Bodhyfryd.<br><br>Rydym yn dathlu ac yn gwarchod ein cynefin.<br><br>Gan weithio gyda'r gymuned, byddwn yn creu dyfodol disglair i'n disgyblion | Mae'r cwricwlwm yn daith dysgu unigryw i bawb. O fewn ein dosbarthiadau, ein hysgol ac ar draws ein clwstwr o ysgolion.<br><br>Rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i ddatblygu ein dulliau addysgu i alluogi cyfleoedd i bawb ymchwilio darganfod addasu a dysgu'n barhaus.<br><br>Mae ein plant yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu a'u hunain.<br><br>Datblygu fel dysgwyr annibynnol. | Fel ysgol, parchwn farn a theimladau pawb.<br><br>Mae pawb yn yr ysgol yn unigryw – yn ddysgwyr a theuluoedd, yn staff a rhanddeiliaid.<br><br>Mae llais y disgybl yn allweddol byddwn yn tynnu ar lais ein dysgwyr ac yn ymateb i'w anghenion, eu profiadau a'u mewnbwn i'w dysgu.<br><br>Rydym yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol | Gyda'r disgyblion, byddwn yn cynllunio cwricwlwm creadigol, cyfoes, diddorol, heriol ac amrywiol sy'n dilyn diddordebau'r disgyblion ac yn cynnig profiadau newydd iddynt tu fewn a thu allan i'r dosbarth.<br><br>Trwy gyfleoedd i greu a pherfformio ac ystyried syniadau newydd bydd ein plant yn magu hyder i ymateb i heriau yn bositif.<br><br>Mae cyfathrebu ein syniadau ac edrych ar y byd trwy lygaid eraill yn rhan hanfodol o'n Cwricwlwm. |

# Ein taith Cwricwlwm?


## Sut rydym ni ym Modhyfryd wedi addasu ein arferion addysgu a chysylltu a rhwydweithiau i ymateb i ofynion y Cwricwlwm i Gymru?

| Dealltwriaeth a defnydd o'r pedwar diben.  | Dadansoddi ac hunan arfarnu  | Gweithio ag ysgolion a phartneriaid  | Ymdeimlad ac edrychiad ein hysgol -Ysgol Trawma Informed  | Working with Ed Support   | Grwp Polisi Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru Welsh Government | Storyboard approach  |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnydd o'n cymeriadau i amlygu pwysigrwydd y pedwar pwrpas i'n plant .<br><br>Cwricwlwm i bwrpas yw'r Cwricwlwm i Gymru.<br><br>Awdit a chynllunio yn ôl y 4 diben- ffocws ar pwysigrwydd y pedwar diben i sefydlugwerth pob agwedd o ddysgu a dealltwriaeth ar draws yr ysgol gyfan. | Defnydd o'n hasesiadau Dosbarth storiau dysgu a dadansoddiad profion ar gyfer cynllunio am gynnydd.<br>Teithiau dysgu i fonitro ein blaenoriaethau ysgol.<br>Teaching Continua- cyfle i fyfyrio ar ein harferion addysgu.<br>Ymgynghori a'n holl rhandeiliaid er mwyn adnabod gwendidau a gyrru gwelliant. Holl staff, rhieni, plant a llywodraethwyr. | Sgwad Sgwennu – Datblygu medrau iaith ar draws y clwstwr.<br><br>Clwstwr Mathemateg – holl arweinydd iaith ar draws clwstwr ysgol Morgan Llwyd i gytuno ar ddatblygiad iaith ar draws y clwstwr.<br><br>Partneriaeth ysgolion – ymweld ag ysgolion y clwstwr i gefnogi arferion addysgu. "Talk for writing"<br><br>Cyd weithio ag ysgolion y sir i ddatblygu ddefnydd "Sut wyt ti?" | Jenny Mosley – hyfforddiant ysgol gyfan<br>Rheolau aur ,5 sgil allweddol. Arferion amser chwarae<br><br>Dysgu yn yr awyr agored yn rhan o ddysgu ar draws yr ysgol.<br><br>Elizabeth Jarman -Creu ardaloedd sy'n ennyn cyfathrebu -cysylltu'r addysgeg â'r amgylchedd .<br><br>Sian Jones – Uwch ymarferwr Trawma- rhannu arferion ac ymchwil a'r ysgol | Gweithio a Education Support i fabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan tuag at lles staff ac arweinwyr ysgol.<br><br>Sefydlu a gwreiddio arfer da ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob aelod o'r tim addysgu yn cael cefnogaeth. Trwy hyn byddwn yn cryfhau yr amgylchedd cefnogol a chroesawgar sy'n galluogi i blant ffynnu. | Catrin - mynychu cyfarfodydd misol gyda Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chydweithwyr o bob rhanbarth yng Nghymru a phob sector o addysg 3-16.<br><br>Mae canllawiau cyfredol CiG yn cael eu hadolygu/diweddaru, mae amryw o grwpiau addysgiadol yn gofyn am gyngor ac arferion gorau yn cael eu rhannu. | Trwy weithio hefo Allison Zmuda, llywodraeth Cynru ag ysgolion rydym yn datblygu ein dull "Storiau dysgu" er mwyn simleiddio a rhannu cynlluniau dysgu hefo'n plant a thruluoedd.<br><br>Gwethio ag Athrawon a pob aelod o'r tim addaygu i wella dealltwriaeth o ddatblygiad ar hyd ac ar draws y 6 maes dysgu a phrofiad. |
| canlyniad | canlyniad | canlyniad | canlyniad | canlyniad | canlyniad | canlyniad |
| Plant yn fwy ymwybodol o ystyr a phwysigrwydd ein 4 pwrpas.<br>Defnydd o waliau a thempledi cynllunio i fapio ein teithiau dysgu yn ôl y 4 diben | Dathlu ein llwyddiannau a bwydo ein blaenoriaethau eleni ac i'r dyfodol. | Cytuno dilyniant sgiliau Llythrennedd 3-11 clwstwr YMLl | Ethos o gydymdeimlad a dealltwraieth. Datblygu arferion "sut wyt ti? Ar draws yr ysgol i helpu blant adnabod ac ymateb yn gadarhaol i'w teimladau. | Datblygu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer lles staff a phlant sy'n cefnogi a'n gwireddu ein gwerthoedd fel ysgol. | Trwy weithio ag arbenigwyr ag ysgolion rydym yn datblygu dull "Storiau dysgu" i symleiddio a rhannu teithiau dysgu a pphwrpas dysgu trwy'r ysgol. Prif | Datblygu llais y disgybl a'u ymrwymiad i'w dysgu a dtablygiad personol.<br><br>Datblygu trafodaeth |

# Fframwaith Sgiliau

| Llythrennedd<br>Rhiannon  | Rhifedd<br>Catrin  | Digidol<br>Lisa  |
|---|---|---|
| Dyma gyfres o ganllawiau sy'n helpu athrawon i integreiddio sgiliau llythrennedd ym mhob maes o ddysgu eich plentyn, nid yn unig o fewn gwersi Iaith. Mae sgiliau llythrennedd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ym mhob pwnc, gan eu bod yn galluogi myfyrwyr i ddeall, cyfathrebu a dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol. Maent hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol. | Dyma gyfres o ganllawiau sydd wedi'u cynllunio i helpu athrawon i ymgorffori sgiliau rhifedd ym mhob maes o addysg dysgwyr, gan ddatblygu a chymhwyso sgiliau y tu hwnt i wersi Mathemateg. Mae sgiliau rhifedd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant mewn gwahanol MDaPh ac mewn bywyd bob dydd. Unwaith eto, mae hon yn agwedd bwysig i alluogi disgyblion i fod yn ddysgwr gydol oes a all addasu i wahanol sefyllfaoedd ac amgylchiadau. | Cyfres o ganllawiau wedi'u cynllunio i helpu athrawon i integreiddio sgiliau digidol ym mhob maes o ddysgu eich plentyn, sydd bob amser wedi'u gosod o fewn cyd-destun dilys, pwrpasol. Mae cymhwysedd digidol yn gynyddol hanfodol yn y byd sydd ohoni, ac mae'r fframwaith hwn yn sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i lywio a ffynnu mewn cymdeithas ddigidol, gan gynnwys y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau eu hiechyd a'u lles digidol. |
| **Beth yw'r cynnwys?** | **Beth yw'r gynnwys?** | **Beth yw'r gynnwys?** |
| Mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â gweithgareddau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando ar draws y cwricwlwm, gan feithrin gallu dysgwyr i ddehongli, cyfathrebu a gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol yn effeithiol. Nod y fframwaith yw datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr ochr yn ochr â'u gwybodaeth pwnc, gan eu helpu i ddod yn ddarllenwyr, awduron a chyfathrebwyr hyderus a medrus ar draws pob maes dysgu. | Mae integreiddio sgiliau rhifedd ym mhob MDaPh, yn pwysleisio eu natur hanfodol. Mae sgiliau rhifedd fel datrys problemau, dadansoddi data, a rhesymu mathemategol ar draws y cwricwlwm yn cael eu datblygu, gan ddefnyddio cyd-destunau ystyrlon i fagu hyder a hyfedredd dysgwr wrth ddefnyddio rhifau'n effeithiol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae hyn yn adeiladu annibyniaeth fel dysgwr ac yn eu paratoi ar gyfer llwyddiant academaidd ac mewn bywyd bob dydd. | Integreiddio sgiliau digidol ar draws pob maes dysgu, yn hytrach na'u trin fel gwersi annibynnol, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae'n targedu datblygiad sgiliau digidol fel llythrennedd gwybodaeth, cyfathrebu digidol, cydweithio, creadigrwydd, a defnydd cyfrifol o dechnoleg. E-ddiogelwch ac ymddygiad ar-lein priodol fel elfennau hanfodol o'r fframwaith hwn, yn ogystal â chymhwyso sgiliau digidol yn feirniadol. |

# Chwe Maes Dysgu a Phrofiad ein Cwricwlwm (MDaPh)

| Iaith | Rhifedd | Iechyd a lles | Dyniaethau | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Celfyddydau |
|---|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |  |
| **YHSB1** - Mae ieithoedd yn ein cysylltu ni.<br><br>**YHSB2** - Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.<br><br>**YHSB3** - Mae mynegi ein hunain trwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.<br><br>**YHSB4** - Mae llenyddiaeth yn tanio dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd. | **YHSB1 -** Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau<br><br>**YHSB2** - Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol<br><br>**YHSB3** - Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.<br><br>**YHSB4** - Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus. | **YHSB1** - Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.<br><br>**YHSB2** -Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.<br><br>**YHSB3** - Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.<br><br>**YHSB4** - Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. | **YHSB1** - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.<br><br>**YHSB2** - Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.<br><br>**YHSB3** - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.<br><br>**YHSB4** - Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.<br><br>**YHSB5** - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | **YHSB1** - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.<br><br>**YHSB2** - Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.<br><br>**YHSB3** - Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.<br><br>**YHSB4** - Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.<br><br>**YHSB5 -** Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.<br><br>**YHSB6** - Mae cyfrifiadureth yn gosod sail i'n byd digidol. | **YHSB1** - Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.<br><br>**YHSB2** - Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.<br><br>**YHSB3** - Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |

# Proses cynllunio ein Cwricwlwm?


## Ein Cwricwlwm yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi wrth fynd ar drywydd y pedwar diben. Nid yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu yn unig, ond sut rydyn ni'n dysgu a pham rydyn ni'n ei ddysgu.

| Dull Storiau dysgu   | Cynllunio am gynnydd, myfyrio a chamu ymlaen  | Dilyniant ar hyd y 6 Maes dysgu a phrofiad   | Cyd destyn dilys , perfformiadau dysgu  |
|---|---|---|---|
| Dysgu Ymchwiliol<br>Trwy ofyn cwestiynau mawr ,pen agored yn syml<br>1 – Bachu sylw /ennyn ddiddordeb<br>2- Ymchwilio yn bwrpasol – cymhwyso sgiliau, creu cysylltu …<br><br>3- Gweithredu/perfformio cyfathrebu i bwrpas.<br><br>Creu cyd-destun pwrpasol i'n dysgwyr.<br>Sicrhau trosglwyddo o ddysgu i sefyllfaeodd gwahanol. | Adnabod galluoedd pob plentyn.<br><br>Cyfarfodydd cynnydd<br><br>Dulliau asesu ac adborth adeiladol ar draws yr ysgol.<br><br>Llyfrau Camu ymlaen | Cynllunio am ddilyniant.<br><br>Arweinwyr maes dysgu a phrofiad yn cydweithio i fonitro datblygu a dadansoddi cynnydd ar draws yr ysgol ac ar hyd y chwech maes dysgu a phrofiad.<br><br>https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf | Gosod ein dysgu o fewn sefyllfaoedd pwrpasol bywyd go iawn.<br><br>Defnydd o sgiliau digidol a Seesaw i gynhyrchu perfformiadau dysgu a chofnodi profiadau dysgu tu hwnt i'r dosbarth.<br><br>Cyfleoedd i ehangu, dyfnhau a throsglwyddo dysgu o un sefyllfa i un arall. |
| Bwydo'r iaith a sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal ymchwiliad a storiau dysgu dilys. | Defnydd o waliau iaith, rhif a digidol i engreifftio dilyniant a chynnydd | **Sut mae cynnydd yn edrych fel ym Modhyfryd? Beth yw'r dilyniant dysgu ac ydy'r ysgol yn gytun?** | Trosglwyddo ein dysgu i sefyllfaoedd newydd i ddyfnhau ac ehangu dealltwriaeth. |

# Sgiliau Cyfannol


## Beth yw'r sgiliau annatod a beth yw rhai enghreifftiau o sut rydym yn datblygu'r rhain yn Ysgol Bodhyfryd?

Gyda'n Gilydd
Ysgol Bodhyfryd

| Creadigrwydd ac arloesedd  | Datrys problemau a Meddwl yn feirniadol  | Effeithlonrwydd Personol  | Trefnu a chynllunio  |
|---|---|---|---|
| **Ystyr?** | **Ystyr?** | **Ystyr?** | **Ystyr?** |
| Dylai plant gael y rhyddid i ofyn cwestiynau ac archwilio syniadau. Dylid eu hannog i gysylltu gwahanol brofiadau a sgiliau, ystyried gwahanol atebion, ac egluro eu dewisiadau. Mae hyn yn eu helpu i ddod o hyd i gyfleoedd a rhannu eu cynlluniau, gan ganiatáu iddynt greu gwahanol fathau o werth. | Dylid annog plant i ofyn cwestiynau pwysig a meddwl yn feirniadol am wybodaeth a sefyllfaoedd. Dylent allu dadansoddi atebion posibl, ystyried problemau posibl, a gwneud penderfyniadau gwrthrychol. Dylent hefyd ddysgu datblygu dadleuon cryf ac awgrymu atebion sy'n creu gwahanol fathau o werth. | Dylai plant feithrin deallusrwydd emosiynol ac annibyniaeth, gan fagu hyder. Dylent arwain trafodaethau, gan ystyried agweddau cymdeithasol, diwylliannol, moesegol a chyfreithiol. Dylent asesu eu dysgu a'u camgymeriadau, gan anelu at wella. Gan ddod yn gyfrifol, maent yn dysgu adnabod gwahanol fathau o werth a'u defnyddio'n effeithiol. | Dylai plant, wrth iddynt dyfu, ddysgu gosod nodau, gwneud penderfyniadau, ac addasu eu cynlluniau. Byddant hefyd yn dysgu rheoli amser, pobl ac adnoddau yn effeithiol. Mae gwirio am gywirdeb a chreu gwerth yn sgiliau pwysig y byddant yn eu datblygu. Mae'r galluoedd hyn yn galluogi ein plant i weithio ar draws gwahanol bynciau, gan feithrin creadigrwydd a meddwl yn feirniadol. Mae creu cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer arloesi. |

# Sgiliau Cyfannol

## Beth yw'r sgiliau annatod a beth yw rhai enghreifftiau o sut rydym yn datblygu'r rhain yn Ysgol Bodhyfryd?

| Creadigrwydd ac arloesedd | Datrys problemau a Meddwl yn feirniadol | Effeithlonrwydd Personol | Trefnu a chynllunio |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** |
| Defnydd o Cai creadigol i bwysleisio pwysigrwydd trafod a datblygu syniadau ,cynllunio ,addasu, cydweithio a gwerthuso ein gwaith.<br><br>Pwysleisio'r pwysigrwydd o ddysgu o'r pethau sydd heb lwyddo i wella ein dealltwriaeth o beth allwn gyflawni.<br><br>Gweithio ag arbennigwyr allanol i gyfoethogi ein gwaith.<br><br>Gwerthfawrogi y broses creadigol er mwyn cyfoethogi dysgu ar draws y 6 maes dysgu a phrofiad. | Modelu patrymau Iaith – defnydd o Ein Llais Ni i ddatblygu rhuglder . Mwy o amser i waith llafar wrth gynllunio dysgu.<br><br>Gweithio â disgyblion i loywi iaith – cynnal sesiwn hyfforddiant i rannu adnoddau .<br><br>Sicrhau cyfleoedd i blant drafod a chyfathrebu eu syniadau trwy gynllunio perfformiadau dysgu i bwrpas.<br><br>Fwy o amser i gydweithio yn y dosbarth, ffocws ar fodel Fi – Ni – Chi gab sicrhau bod digon o amser a pit stops o fewn gwersi . | Amser i fyfyrio, cymharu, gwerthuso ac ail ddrafftio.<br><br>Defnydd gridiau GED<br><br>Datblygu defnydd modelau meddwl .<br><br>Datblygu deallusrwydd emosiynol, grwpiau SAP i drafod teimladau.<br><br>Defnydd o PASS i dargedu a chefnogi grwpiau penodol.<br><br>Gwaith Cynefin – datblygu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth diwyllianol yn ein hardal. | Sicrhau awyrgylch, amserlen ac adnoddau tu fewn a thu allan sy'n caniatáu plant i ddatblygu eu syniadau. Datblygu dulliau dysgu yn yr awyr agored trwy hyfforddiant ac Adnoddau.<br><br>Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y 12 egwyddor i gynllunio amrywiaeth o ddulliau addysgu a ffocws ar ddysgu ymchwiliol.<br><br>Rôl yr athro yw datblygu cyfleoedd i blant gyfathrebu yn effeithiol trwy ddatblygu a modelu sgiliau allweddol o wrando.<br><br>Ffocws ar ddarllen ar y cyd i feithrin mwynhad o ddarllen, ac i ddarllen amrywiaeth o destunau.<br><br>Cynllunio cynhyrchiad creadigol sy'n defnyddio adnoddau digidol i'w gyfoethogi. |

# Dilyniant a Chynnydd

## Sut ydym yn sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn effeithiol dros amser?

### Cynyddu effeithiolrwydd




**Ystyr?**

Wrth i blant dyfu, maent yn gwella sut mae dysgu gydag eraill mewn sefyllfaoedd bywyd gwaith go iawn. Maen nhw'n dysgu ble a sut mae gofyn am gymorth. Maent yn dechrau gofyn cwestiynau doethach a dod o hyd i atebion o wahanol fannau. Maent hefyd yn gwella eu hunan arfarnu a beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu gan reoli eu dysgu eu hunain.

### Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth



**Ystyr?**

Wrth i blant ddysgu mwy, mae angen iddynt wybod llawer o bethau a deall y pethau hyn mewn mwy o ddyfnder. Fel maent yn dysgu, maent yn gwella eu deallusrwydd o sut mae gwahanol syniadau'n cyd-fynd gyda'i gilydd a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i wneud synnwyr o wybodaeth newydd.
Mae hyn yn eu helpu i ddeall yn iawn beth maen nhw'n ei ddysgu a pham ei fod yn bwysig a phwrpasol.

### Dyfnhau dealltwriaeth o syniadau o fewn MDaPH



**Ystyr?**

Mae'n bwysig bod plant yn gweld sut mae popeth yn ffitio gyda'i gilydd yn y byd trwy eu holl dysgu. Dylent ddeall sut mae gwahanol syniadau a ffyrdd o wneud pethau yn gwneud synnwyr gyda'i gilydd. Wrth iddyn nhw dyfu, byddan nhw'n dysgu mwy am wahanol bynciau a sut maen nhw'n ymwneud â'r darlun ehangach o'r hyn maen nhw'n ei ddysgu a pam mae'n bwysig?

### Soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau



**Ystyr?**

Mae angen i blant ddysgu amrywiaeth o sgiliau, fel cyfathrebu, meddwl a myfyrio a sgiliau ar gyfer pynciau penodol. Mae nhw hefyd yn dysgu sut i ddeall a defnyddio gwybodaeth maen nhw wedi'i ddysgu. Fel y maent yn tyfu, maent yn gwella wrth ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt eisoes, ac maent yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd, mwy cymhlet. Mae'r holl ddysgu yn adeiladu ar eu profiadau dysgu blaenorol.

### Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau Newydd



**Ystyr?**

Wrth i blant ddysgu, dylent wella eu sgiliau ymgysylltu syniadau eu hunain o fewn y pynciau, rhwng pynciau a gyda phethau maen nhw'n gwybod o'r tu allan i'r ysgol. Fel maent yn tyfu, byddant yn gwella eu sgiliau oesbonio a dangos pam mae'r cysylltiadau'n bwysig. Byddan nhw'n hefyd yn gallu defnyddio'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu mewn sefyllfaoedd newydd.

# Dilyniant a Chynnydd

Sut ydym yn sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn effeithiol dros amser?

| Cynyddu effeithiolrwydd | Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth | Dyfnhau dealltwriaeth o syniadau o fewn MDaPH | Soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau | Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau Newydd |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?** |
| ●Mae athrawon yn defnyddio arferion asesu parhaus, gan gynnwys arsylwi, adborth llafar / ysgrifenedig, hunan-arfarnu ac adborth cyfoedion i bersonoli'r taith ddysgu.<br>● Mae cyfleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer plant i gyd-adeiladu eu gweithgareddau dysgu a chytuno ar amcanion.<br>● Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn cael eu datblygu'n gyson i gefnogi dysgu annibynnol<br>● Mae cyfarfodydd cynnydd bob tyymor I drafod cynnydd ar draws yr ysgol<br>●Mae llyfrau Camu 'mlaen yn cael eu defnyddio bob tymor I dracio cynnydd rhifedd ac ysgrifenedig | ● Mae dull Stori dysgu yn nodi taith ddysgu pob uned, ac yn grymuso athrawon i adeiladu ar ddysgu blaenorol.<br>● Mae amcanion dysgu bob amser yn cael eu rhannu'n glir gyda'r plant i egluro pwrpas y dysgu ac i gefnogi cynnydd<br>● Mae taith ddysgu y plant yn weladwy ac yn dangos cynnydd ar draws yr ysgol | ● Nid yw Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â sylw i gynnwys eang;<br>yn lle hynny mae athrawon yn arwain dysgwyr i archwilio themau mewn dyfnder ar draws MPPh.<br>● Mae llyfrau themau a chynllunio stori dysgu yn sefydlu ac yn dangos cysylltiadau rhwng MPPh gwahanol.<br>● Mae dysgu tymhorol yn cael ei alw'n 'Stori dysgu ...' a mae'n egluro pwrpas y dysgu a'r ffordd y mae'n cysylltu pynciau a sgiliau. Rhanwyd y storiau a rhieni pob tymor. | ● Mae'r dysgwyr yn rhan o unrhyw asesiadau a wnaed (sticeri, ar lafar mewn grwpiau ffocws, modelau meddwl), gan gynnwys ymateb i dasgau bob dydd trwy adborth ar lafar ac ysgrifenedig a fwriadwyd i gefnogi'r unigolyn fireinio eu sgiliau, o'u man cychwyn nhw.<br>● Mae'r cyd-destunau ar gyfer dysgu yn dod yn gynyddol gymhleth, fel y mae'r plant yn symud trwy'r ysgol, a mae angen cysylltiadau rhwng a gallu defnyddio sgiliau gwahanol. | ● Rydym yn defnyddio agwedd 'dyluniad ar yn ôl' at ein cwricwlwm, lle mae athrawon yn dechrau gyda nod 'perfformiad/dathliad mewn golwg mewn perthynas â gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth; gan greu 'perfformiad/ dathliad' i ddangos dealltwriaeth a'r hyn mae nhw wedi ei ddysgu.<br>● Mae ein cwricwlwm hefyd yn galluogi plant ddangos eu dealltwriaeth mewn sawl ffordd, yn ôl eu gofynion/gallu |

# Thema Trawsbynciol

## Beth yw'r themâu ehangach y mae'n rhaid i ni eu plethu drwy gydol y daith ddysgu 3-16 a sut mae cyflawni hyn yn Ysgol Bodhyfryd?

| Addysg Cydberthynas a rhywioldeb | Amrywiaeth | Hawliau Plant | Gyrfaoedd a phrofiadau gwaith | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
| --- | --- | --- | --- | --- |
|  |  |  |  |  |
| **Ystyr?** | **Ystyr?** | **Ystyr?** | **Ystyr?** | **Ystyr?** |
| Mae Addysg Cydberthynas Rhywioldeb (ACRh) yn addysgu plant am berthnasoedd iach, rhywioldeb a hawliau personol. Drwy ACRh gallwn greu mannau diogel ar gyfer myfyrio a . Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar dri prif faes: meithrin perthnasoedd iach, deall iechyd rhywiol, a hybu grymuso, diogelwch a pharch. https://hwb.gov.wales/repository/resource/9852517a-4257-4fce-9e68-35b737e09c7d | Mae amrywiaeth yn golygu cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng pobl a sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny. Rydym yn creu cyfleoedd i blant ddeall a dathlu amrywiaeth, herio stereoteipiau, a gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn y cwricwlwm. https://darpl.org/community-of-practice/ | Daw'r plant i ddeall pwysigrwydd tegwch, parch a diogelwch mewn amrywiol berthynas. Archwilir hawliau penodol, megis peidio â gwahaniaethu, rhyddid i fynegu eu hunain a'i hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed. Yn ogystal, rydym yn cysylltu â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn eu haddysgu am amddiffyniadau cyfreithiol sy'n ymwneud â'u lles. https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/ | Mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn helpu plant i baratoi ar gyfer dysgu a gwaith yn y dyfodol trwy ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth. Nod hyn yw helpu i ddatblygu'r agweddau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant. Mae hefyd yn eu hannog i ystyried pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac i archwilio cyfleoedd dysgu amrywiol ar gyfer eu dyfodol. https://careerswales.gov.wales/ | O fewn ein hethos Gristnogol, mae ein gwerthoedd wrth galon ein cwricwlwm a rhediad yr ysgol o ddydd i ddydd. Rydym yn canolbwyntio ar ein hardal leol a'n cyd-destun Cymreig yn ogystal ag archwilio'r byd yn ehangach. Dathlwn yr unigoliaeth a'r amrywiaeth a geir o fewn ein hysgol a'n cymunedau, gan ddatblygu dealltwriaeth ac empathi tuag at grefyddau amrywiol. |

# Thema Trawsbynciol

## Beth yw'r themâu ehangach y mae'n rhaid i ni eu plethu drwy gydol y daith ddysgu 3-16 a sut mae cyflawni hyn yn Ysgol Bodhyfryd?

| Addysg Cydberthynas a rhywioldeb | Amrywiaeth | Hawliau Plant | Gyrfaoedd a phrofiadau gwaith | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?**<br><br>**Blwyddyn 6 –Addysg rhyw**<br><br>**Glendid – arfer brwsio dannedd o Dderbyn i bl 1a2. Plant bl6 yn cefnogi hyn.**<br><br>**Defnydd o'r offer Tyfu Fyny Hyfforddiant Clwstwr – Helen Jones.**<br><br>**Newid Geirfa – LGBTQ**<br><br>**Parch- Ethos ysgol gyfan wedi eu seilio ar ddatblygu perthnasau positif iach a saff gyda'n gilydd.**<br><br>**Defnydd Adnoddau NSPCC – Pantasaurous –llyfr ar gyfer y plant ifanc**<br><br>**Sicrhau defnydd o eirfa gywir i gyfeirio at rannau corff.** | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?**<br><br>Ffocws ar ddigwyddiadau o amgylch y byd.<br><br>Defnyddio newyddion/papurau Newydd i drafod bywyd go iawn.<br><br>Sicrhau cyfleoedd i drafod ac i ystyried amrywiaeth o safbwyntiau.<br><br>PAOCWR – Llais y plentyn – Ystyried barn eraill a mynegi barn.<br><br>Gweithio a'r gymuned leol i gysylltu ag i ddathlu amrywiaeth yn ein cymuned .<br><br>Enillwyr Prosiect Cymuned Gynefin – gweithio a grŵp lleol Portiwgiaidd. | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?**<br><br>Defnydd o'n plant i ddatblygu eu llais a'u syniadau.<br><br>Pwyllgorau Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Ysgol iach, Llysgenhadon Digidol, Siarter Iaith, i gynrychioli pob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithio i wella ein hysgol.<br><br>Pwyslais ar ddewis unigol ,ethol ,pleidlais yn arferion trwy'r ysgol. | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?**<br><br>"Speed dating" gyrfaoedd<br><br>Pobl sy'n helpu – edrych ar yrfaoedd amrywiol.<br><br>Ymweld â'r Llyfrgell, cartref hen bobl Hillbury.<br><br>Defnydd o'r tu fewn a thu allan i gynnig cyfleoedd amrywiol. Garddio, adeiladu, siop.<br><br>Cyfeirio at yrfaoedd trwy addysgu'n ymchwiliol. Defnyddio cyd-destun bywyd go iawn i ddathlu/cyflwyno ein gwaith.<br><br>Gwahodd arbenigwyr i weithio a'r plant; awduron, clybiau chwaraeon, grwpiau cymunedol. | **Sut mae hyn yn edrych ym Modhyfryd?**<br><br>Dathliadau cynheaf,Nadolig Pasg.Priodas (bl1a2)<br><br>Gwasanaethau wythnosol, gweddio a chanu ar y cyd.<br><br>Trafod gwerthoedd a moeseg trwy ddarllen ar y cyd, arfer cwestiynu a darllen rhwng y llinellau.<br><br>Agor y llyfr – gwasanaeth drama pob hanner tymor – plant yr ysgol yn perfformio a rhannu storiau o'r beibl trwy wasanaeth ysgol cyfan.<br><br>Cefnogi eraill – plant hyn yn helpu'r plant ifanc wrth weithio ar prosiectau plannu, darllen a chelf. |